# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 1 Mawrth 2022 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Diwedd cyfnod Capel y Brwcws



Y gweinidog Parch Andras Iago (cefn dde) gyda blaenoriaid ac aelodau yn y gwasanaeth olaf y capel.

## Ffederasiwn SyM Clwyd Dinbych



Dyma rai o'r blancedi y mae aelodau SyM Green, Llanrhaeadr a Llandyrnog sydd wedi bod yn rhoi y sgwarie at ei gilydd, wedi'u gwau a'u crosio gan aelodau o sawl SyM yn y Ffederasiwn.
Maent yn cael ei cyfrannu at achosion teilwng.
Or chwith eistedd Liz Parry, Karen Doulton, Hilary Jones, Gill Windle, Leslie Ellisone ac Enid Brown

## Adinuad gweithwyr Woolworth



Daeth rhoi o weithwyr Cangen Woolworth Dinbych (a gauwyd yn Rhagfyr 2008) i gael cinio yn Con Amici
Cefn– Betty, Brenda, Alice, Sue, Mair, Linda a Marilyn.
Blaen—Hafwen, Eirlys, Jenny, Glenys a Margaret

## Gwasanaeth olaf Capel y Brwcws



Y Parch Andras Iago



Gwilym H. Williams



Elizabeth Edwards



Dilwyn Jones



Rhianwen Williams



Mr Hughes yn cloi drws y capel am y tro olaf

# Sefydliad DPJ'



Trefnwyr y Noson



Hanes tudalen 24



Arwerthiant



## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifion Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifionjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Ebrill: Morgan Cordiner**

# Gair gan y Golygydd

Trychinebus yw clywed a gweld yr hyn sydd ar y newyddion dros y diwrnodau diwethaf. Nid wyf yn berson sydd yn brin o eirau fel arfer ond mae'r hyn rwyf wedi ei ddarllen a'i glywed am Rwsia a'i ymosodiadau filwrol di-angen a'r Wcráin wedi fy ngwneud yn fur o eiriau.
Ni allaf dychmygu y poen a'r ofn y mae pobl Wcráin yn ei wynebu. Maent yn gorfod gwneud y penderfyniad anodd o ffoi o'u gwlad neu aros i wynebu'r gelyn. Y teimlad o wybod efallai na fydd cartref, cariad na chymdeithais wedi'r ymosodiadau.
Pobl cyffredin Wcráin sydd yn gorfod dioddef artaith a chreulondeb dynol ryw.
Un dyn sydd yn gweld fod pwer yn llawer pwysicach na bywydau miliynau o sifiliaid.
Gyda nerth y mae undod. Mae pobl o bob rhan o'r byd yn erfyn a'r eu lleisiau i gael eu clywed drwy dyrru a'r stryddoedd y byd i ddangos eu cefnogaeth i'r dioddefwyr. Mae'r hyn rydym yn ei glywed yn dod a mymryn o obaith yng nghanol cyfnod di obaith.

*Martha Cordiner*

---

# COLLI DAU OLYGYDD

Yn anffodus, y mae'r **Bigwn** yn colli dau aelod o'r tîm golygyddol yn ystod y misoedd nesaf.
Datganodd Mr Ceredig Gwynn ddymuniad i gael ei ryddhau o'i ddyletswyddau ar ôl golygu rhifyn Chwefror, tra bod Mrs Angharad Rhys yn rhoi gorau i'r gwaith yn ystod yr haf yn dilyn ei phenodi yn olygydd cylchgrawn cenedlaethol Merched y Wawr o Fedi ymlaen.
Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ddau am eu gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ddymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.
O ganlyniad i golli'r ddau ohonynt rydym yn brin iawn, iawn o olygyddion gyda'r tîm bellach i lawr i bedwar aelod a'n hangen ni am olygyddion ychwanegol yn ddifrifol.

**A ydych chi'n credu y gallech chi'n cynorthwyo ni drwy ymuno â'r tîm?**

Cysylltwch â Stan Lyall (01745 813659)

neu

Sian Rogers (01745 813368) am ragor o wybodaeth.

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Ebrill**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Mawrth 18**

sir ddinbych
denbighshire
CYMRAEG
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Cymdeithas Caledfryn

‘Anhygoel’
‘Dangos pa mor anwybodus ydw i’
‘Does gen i ddim syniad am yr enwau Cymraeg ar yr adar ma’
‘Rioed di meddwl bod cymaint o fywyd gwyllt yn y cyffiniau’

Dyna rai o sylwadau’r aelodau yn ystod ac ar ddiwedd cyflwyniad y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr o Gymdeithas Caledfryn. Mae Alun Williams,Trefnant yn adaryddwr a naturiaethwr profiadol dros ben ac yn ffotograffydd heb ei ail. Dywedodd iddo ddechrau ymddiddori ym myd natur yn ystod ei fagwraeth yn ardal Bethel ger Caernarfon. Roedd ei dad yn bysgotwr ac yn hoff o hela ond dewisiodd Alun y camera yn hytrach na’r wialen bysgota a’r gwn.

Aeth Alun a ni ar daith drwy’r tymhorau trwy gyfres o ffotograffau o dirwedd, anifeiliaid, adar a blodau gwyllt a’r mwyafrif o’r lluniau wedi eu tynnu yng Ngogledd Cymru. Roedd yn pwysleisio’r angen i ddefnyddio enwau Cymraeg ein bywyd gwyllt neu yn anffodus mi fyddent yn diflannu o’n hiaith-enwau hyfryd fel Bras yr Eira, Pibydd y Tywod, Crec yr Eithin, Clochdar y Cerrig a’r Rhegen Ddŵr.

Dangosodd lun gwych o’r carlwm, anifail sydd ddim yn troi’n hollol wyn yn y gaeaf yng Nghymru am rhyw reswm a’r wiber sy’n deffro o’i thrwmgwsg tua ganol Chwefror. Mae’r wiber wryw yn deffro



Alun Williams a Richard

gyntaf ac yna’r fenyw tua diwedd Mawrth. Mae gan pob wiber eu patrwm marciau unigol ond y fenyw ydy’r un fwyaf filain.

Ar ddechrau’r gwanwyn dywedodd Alun bod rhaid iddo gael taith i Fae Cemlyn, ar arfordir gogleddol Ynys Môn i weld miloedd o’r fôr wenoliaid. Rhai blynyddoedd yn ôl roedd prinder mawr o gywion yn y nythod gan fod draenogod wedi llwyddo i nofio allan i fwyta’r wyau! Yn yr haf mae’n ymweld ac un o ynysoedd Cymru i weld y pâl-aderyn. Aderyn rhyfeddol a thlws dros ben ac sydd gyda pig unigryw fel dannedd llif goed i ddal rhes o bysgod bach.

Gwelsom luniau gwych yn ystod y noson o garpedi o eirlysiau o gwmpas Eglwys Llangwyfan, grug ieir duon ger ardal Minera, ysgyfarnogod ar fynydd Hiraethog, gloynnod byw yn ardal Graig Adwy Wynt a’r morloi yn Nhrwyn y Fuwch, Bae Penrhyn a llawer iawn mwy.

Rhoddwyd amser ar ddiwedd y noson i’r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau ac roedd yn amlwg bod pawb wedi mwynhau’r cyflwyniad yn fawr iawn. Diolchwyd i Alun gan Richard, Llywydd y Noson a dywedodd y bydd y cyfarfod nesaf ar ddiwedd Chwefror gyda Rhys Davies yn rhoi sgwrs am winllan arbennig yn Nyffryn Clwyd.



Beth ydy'r enw cymraeg am yr aderyn yma


**MEIRION DAVIES A’I GWMNI**
**01745 812400**
**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
‘Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch’
John Glyn Jones



# Rhys Thomas

**Eich cynghorydd**
**Plaid Cymru**
**ar Gyngor Sir Ddinbych**
**Yn cynrychioli trigolion Dinbych Isaf**
**ar y Cyngor Sir**
**a’r Cyngor Tref**



cysylltwch gyda fi ar
07977911300
rhys.thomas@sirddinbych.gov.uk

# Angerdd at adar

Dwi’n ferch o dref Dinbych ond bellach wedi setlo yn Ne Cymru ers y 90au. Yn anffodus, fedrai ddim dweud bod fy angerdd am natur, ac adar yn bennaf, wedi codi'i ben mor bell yn ôl a fy amser yn Ninbych, ond dwi wastad wedi bod a hoffter mawr tuag at anifeiliaid o bob rhywogaeth. Pan symudais o Gaerdydd i ardal fwy gwledig yng Ngha
ffili dros bymtheg mlynedd yn ôl, dechreuodd yr amrywiaeth o adar anhygoel a oedd yn ymweld â’r ardd gymryd fy sylw, ac mi ro’n i eisiau gwybod yn union beth oedden nhw.

Mi roedd yr '*usual suspects*' yno - robin, titw tomos las, adar to...ond pa un oedd y titw mawr, a pha un oedd y titw penddu? A beth oedd yr aderyn gydag wyneb coch yn edrych fel ei fod wedi bod yn bwyta allan o bot jam? A'r aderyn hollol hyfryd cochaidd gyda phen, wyneb a phig hollol ddu, ac yn bwyta'n ofnadwy o flêr ar y bwydwyr? Roedd y tân wedi ei gynau, a dyma oedd dechrau fy niddordeb mewn adar.

Yn 2014, es ar daith gerdded mewn gwarchodfa natur wedi ei drefnu gan Grŵp Lleol Caerdydd a’r Cylch yr RSPB. Roedd angerdd a dealltwriaeth adar gan yr aelodau yn heintus, ac yn fuan wedyn dechreuais wirfoddoli gydag RSPB Cymru yn cyfieithu. Dwi bellach wedi ymuno â’r Grŵp Lleol hwnnw fel Swyddog Cyhoeddusrwydd.

Ro’n i’n dysgu wrth wirfoddoli, yn dysgu sgiliau newydd a dysgu am adar yn lleol i fi. Nid yn unig dysgu eu henwau ond am eu storiâu a’u hanes; o’r dryw bach sydd yn aderyn unig (*solitary*) ond eto’n fodlon rhannu bocs nythu gyda degau o ddrywod eraill i gadw’n gynnes yn y gaeaf, i’r hebog tramor, yr aderyn cyflyma’ yn y byd, sy’n hedfan yn uchel uwchben ei brae cyn plymio tuag ato i’w ladd gan gyrraedd cyflymder o dros 200 mya. Mae gan bob un ei ffeithiau, ac mae camu i mewn i’w byd yn hudolus.


Wedi i mi gael fy ngwobrwyo am 5 mlynedd o wirfoddoli gyda'r RSPB, cefais wahoddiad i drafod y wobr fel gwestai ar raglen natur Radio Cymru, Galwad Cynnar, a bellach dwi’n banelydd yn achlysurol. Yn ystod y pandemig yn 2020, cynhyrchais ddyddiaduron fideo ar gyfer dwy gyfres o Natur a Ni i S4C, yn edrych ar natur y cyfnod clo ar fy stepen drws.

Ym misoedd Ebrill a Mai eleni, dwi am gymryd rhan mewn arolwg ydfrain Cymdeithas Adaryddol Cymru (WOS). Mae’r ydfran mewn perygl a’i nifer wedi gostwng yn aruthrol dros y blynyddoedd. Mae’r arolwg yn gofyn i wirfoddolwyr dros Gymru i archwilio 2kmx2km o ardal leol am nythfaoedd ydfrain er mwyn gallu cymharu canlyniadau'r arolwg diwethaf o 1996. Os nad ydych wedi cymryd rhan mewn arolwg adar o’r blaen, dyma un gwych i ddechrau!

Neges y stori hon yw’r budd mae rhywun yn ei gael wrth wirfoddoli. Mae’r ddau barti yn elwa. Yn bendant dwi wedi ennill sgiliau a gwybodaeth newydd, mae wedi agor drysau, ac yn llesol i iechyd meddwl a chorfforol. Ellai'm pwysleisio digon pa mor grêt yw gwirfoddoli ar gyfer sefydliad sy'n bwysig i chi.

Felly beth oedd yr adar ‘diarth’ yn fy ngardd peth amser yn ôl? Yr aderyn wyneb pot jam oedd y nico hyfryd wrth gwrs. A’r aderyn cochaidd a phen du? Coch y berllan, yr aderyn dwi’n ei gyfri fel yr un a sbardunodd fy nghariad tuag at adar, felly mae’r diolch yn fawr i’r aderyn bach arbennig yma.

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 Mae’r Urdd eich angen chi yn 2022!



Wedi dwy flynedd o hoe, rydym wrth ein bodd i fod yn paratoi i fod nôl mewn cae ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych ar ddiwedd mis Mai eleni. Er mwyn sicrhau gŵyl lwyddiannus mae’n rhaid dibynnu ar y fyddin o wirfoddolwyr sydd yn cynorthwyo’r gwaith o gadw trefn a rheolaeth yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Ydych chi eisiau rhoi help llaw i sicrhau mai Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 fydd yr Eisteddfod orau erioed? Ydych chi ffansio gwisgo’r wasgod felen llachar?

Wel, gallwch gyflawni’r ddau beth fel stiward Eisteddfodol! Wrth i uchafbwynt flynyddoedd o waith caled y sir nesáu, mae Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 yn apelio am help llaw yn ystod yr wythnos.

“Y gwir ydi bod angen byddin o stiwardiaid ar gyfer yr wythnos gyfan i sicrhau bod yr ŵyl yn rhedeg yn esmwyth a ddidrafferth, “ meddai Dyfan Phillips. “Bydd angen stiwardiaid drwy’r wythnos, o Ddydd Sul 29ain o Fai hyd at Ddydd Sadwrn y 4yd o Fehefin. Os gallwch gynnig help llaw am awr yn unig neu am yr wythnos gyfan, fe fyddai’r Eisteddfod wrth eu bodd yn clywed gennych chi ac mi fyddai’r Pwyllgor gwaith yn wir werthfawrogol o unrhyw help wrth i ni edrych ymlaen a dod at drefniadau terfynol yr ŵyl fawr ym mis Mai.”

Defnyddiwch eich ffôn clyfar i sganio’r côd QR yma neu ewch i wefan a chwiliwch am www.urdd.cymru/stiwardio


Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

# CAPEL BRWCWS – Y GWASANAETH OLAF, HANES AC ATGOFION

Ar brynhawn Sul, Chwefror 20fed, cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yng Nghapel Brwcws.
Chwefror oedd y mis hefyd pan gynhaliwyd y cyfarfod cyntaf un a ddechreuodd yr achos yn Y Brwcws – 9 y bore ar Sul, Chwefror y 3ydd 1828 oedd hi pan gynhaliwyd Ysgol Sul yn ardal y Brwcws am y tro cyntaf o dan oruchwyliaeth cyfeillion o'r Capel Mawr. Felly, dyna 194 mlynedd i'r mis o'r cyfarfod cyntaf un hyd yr olaf yn adeilad Capel Brwcws (dathlu 150 o flynyddoedd o'r adeilad presennol a wnaed yn 2019).
Yn wreiddiol, cyfarfod mewn cartref preifat "The Cottage" a wnaed ac yna cyfarfod mewn ystafell o dan y bragdy ger y felin. Yr oedd cyfarfodydd gweddi achlysurol yn Fferm y Brwcws hefyd.
Erbyn 1852 (170 o flynyddoedd yn ôl) trosglwyddwyd i Gapel y Felin neu Gapel Glanyrafon – enw sydd wedi goroesi i'r diwedd ar y cofrestr priodasol.
John Roberts oedd enw'r arweinydd cynnar – "John Roberts Pen-y-Maes" er mai byw yn ymyl, nid yn, Pen-y-Maes a wnai. Yr oedd yn gweithio yn Fferm y Brwcws a dyna, mae'n siwr, pam y cynhelid cyfarfodydd cynnar ar y fferm honno.
Erbyn 1857, yr oedd cant o enwau ar lyfrau Ysgol Sul y capel.
Daeth Y Parch Emrys Evans o Abergele i Cotton Hall yn 1864 ac o fewn pum mlynedd i'w ddyfodiad codwyd yr adeilad presennol yn 1869.
Eto, bu'n rhaid aros am chwarter canrif, hyd 1894, cyn cael statws swyddogol fel "eglwys reolaidd".
Hefyd, bu'n rhaid aros tua deuddeng mlynedd arall wedyn, hyd 1906, pan benodwyd y gweinidog cyntaf, Y Parch J Tudno Williams.
Ail weinidog Y Brwcws oedd Y Parch Edward Arfon Jones a ymfudodd dramor wedyn oherwydd ei iechyd. Yr oedd ef yn berthynas pell i mi a chafodd fy nhad yr un enw – arferiad yn 1904 – blwyddyn y Diwigiad – i enwi mab bach newydd ar ol gweinidog yn y teulu!
Y pedwar gweinidog wedyn, cyn y gweinidog presennol Y Parch Ddr Andras Iago, oedd Y Parchedigion Thomas Williams, H W Hughes, Eifion G Jones ac S Wayne Roberts.
Bu pedwar gweinidog arall yn gysylltiedig a'r Brwcws hefyd – Y Parch Edward Evans a fu'n genhadwr yn Nigeria, Y Parch Howell Roberts yn ei ymddeoliad ddiwedd y 60au a dechrau'r 70au, Y Parch William Jones Lerpwl (a'I weddw wedyn - Nansi William Jones - yn ffigwr blaenllaw yn y capel) a'r Parch Iorwerth P Roberts a gofiodd yn hael am Y Brwcws yn ei ewyllys gan ein galluogi i wneud llawer gwelliant ac i allu dal ymlaen cyhyd a rwan.
Mae llawer a fu'n flaenoriaid wrth gwrs ond cyfyngaf fy hun at y rhai a gofiaf ac yr wyf wedi cydweithio a hwy.
Pan gefais fy nghodi yn flaenor yn 1984, yr oeddwn yn dod yr ieuengaf mewn tim o naw. Yr oedd chwech yn flaenoriaid yn barod – Llewelyn Jones, Trefor ac Olwen Lloyd, John Hughes (Uwchaled), Huw Wyn Jones (Dolawel) ac Elwy Davies. Daeth Robert Griffith, Geraint Lloyd a minnau yn flaenoriaid yn Y Brwcws yr un pryd. Rhyfedd meddwl mai dim ond Geraint a minnau o'r criw yma sydd yn dal o gwmpas heddiw.
Yr oedd Llewelyn Jones yn flaenor nodedig – yn ymweld ag aelodau ac yn rhoi jar o jam iddynt – dim ond I'r aelodau ddarganfod wedyn fod y jar yn hanner gwag a'I fod wedi dod a'r jar cyfredol o gwpwrdd ei gartref – a phan fyddai dwy ferch ifanc o'r capel yn priodi tua'r un pryd byddai Llewelyn Jones yn prynu un set o lestri te a rhoi hanner y set bob un i'r ddwy briodferch.
Cawsom lawer o hwyl a hiwmor bob amser yn cael ei le.
Cofiaf Olwen Lloyd wedi colli ei dannedd gosod a chwilio mawr yn digwydd yn y capel, yn y cartref lle yr oedd yn byw (gan gynnwys rhywun yn mynd drwy holl gynnwys y biniau ysbwriel) ac mewn sawl man arall llai tebygol. Wedi iddi gael set newydd, darganfuwyd yr hen set mewn hances o dan set-flaen car un o'r aelodau pan oedd yn ei lanhau – yr oedd Miss Lloyd wedi cael lifft, wedi tynnu'r dannedd a cheisio eu rhoi yn ei phoced yn dawel ond wedi methu'r boced.
Cofiaf Huw Wyn Jones yn dod i'r Ysgol Sul un bore yn ei slipars ac wedi anghofio newid i'w esgidiau a rhywun yn cyfeirio at yr adnod am "wylio dy draed wrth fyned i dy-Dduw". Dyma finnau yn llunio'r pwt yma:

**"A glywsoch chwi son am y blaenor?**
**I'r capel mewn slipars y daeth.**
**Pe bae wedi dod mewn pyjamas,**
**Byddai hynny yn sicr yn waeth.**
**Ond "Gwylia dy draed" yw y cyngor**
**I'w roddi yn awr i'r hen Huw,**
**Wrth ddyfod ar fore Sul hyfryd**
**I'r Brwcws a Thy'r Arglwydd Dduw."**

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd,Cartwnydd
Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.
Lluniau o bob maint
Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

Yr oeddem yn cydweithio yn hapus – yn ystod y pymtheng mlynedd ar hugain y cefais y fraint o fod yn drysorydd Y Brwcws, cydweithiais hefo Elwy Davies yn gyntaf, Margaret Jones wedyn a Carolyn Thomas yn fwyaf diweddar fel ysgrifenyddion Y Brwcws a mwynhau y gwaith bob amser.

Daeth Gwilym Williams, Rhianwen Williams a Lis Edwards – a Bleddyn Williams am gyfnod – yn flaenoriaid yn ogystal a Margaret a Carolyn fel a grybwyllwyd.

Mae'r rhestr o enwau aelodau yn rhy faith i'w gynnwys ond yr aelodau oedd yr asgwrn cefn ar hyd y blynyddoedd – llawer oedd ddim yn "bobl cyhoeddus" ond yr oeddynt yn bresenoldeb cyson a thawel a ffyddlon ac yn cefnogi amrywiol ymdrechion y swyddogion yn ardderchog.

Cofiwn y gymdeithas arbennig wrth baratoi at yr Wyl Ysgol Sul (a llwyddiant ysgubol Y Brwcws yn yr Wyl honno ar un cyfnod tua'r 1950au) ac wrth baratoi at Eisteddfod y Tai – Y Fron a'r Brwcws ar y cyd oedd yn rhagflas o'r hyn sy'n digwydd rwan. Cofiwn hefyd am nosweithiau "Y Brethyn Cartref" a chyfarfodydd eraill Cymdeithas Lenyddol Y Brwcws ei hun a thripiau nodedig i lefydd fel stiwdios Granada a Cadbury World ac, wrth gwrs, Southport sawl tro.

Yn fwy na hynny, cofiwn am ofal yr aelodau dros eu gilydd a'r capel bach, fel yr hoffai Elwy ei ddweud yn aml, yn lapio ei hun am unrhyw aelod neu deulu oedd yn cael amser caled neu wedi dioddef profedigaeth.

Bellach, ni fydd cyfarfod eto yn Y Brwcws ac y mae'r eglwys wedi uno hefo'r Fron a chreu eglwys newydd a mwyafrif yr aelodau wedi trosglwyddo – er fy mod i wedi mynd am Salem Llanfair D C oherwydd yno y mae'r gladdfa deuluol ond byddaf yn cadw cysylltiad ac yn trysori'r atgofion. Mae capel yn le arbennig fel a nodir yn yr englyn yma:

**"Hen ddwyfol fan addoli**
**– nawseiddiwyd**
**Ei seddau gan weddi**
**O ryfedd ras – torf ddi-ri**
**A lanwodd a'i oleuni."**

## Ysgol Sul Capel Y Brwcws – Atgofion

Wnai fyth anghofio y croeso cynnes gefais i, Gwion ag Aron y tro cyntaf aethon ni i Ysgol Sul Capel Y Brwcws yn 2010. Mae cyfarchiad caredig Mrs Jones, Dolawel "Croeso i'r Brwcws" wedi aros yn y cof hyd heddiw. Aelodau croesawgar, cefnogol ac agos at rywun, ar Capel bach yn glyd bob amser.

Golygfa hyfryd oedd gweld y plant yn eistedd wrth y byrddau yn y tu blaen yn gwrando ar stori o'r Beibl, tynnu llun neu wneud crefftau o bob math. Ymhlith fy atgofion hefyd mae'r tripiau Ysgol Sul blynyddol, y Gwasanaeth Nadolig ac ymweliad cofiadwy Sion Corn (gydag ambell un yn sbecian trwy'r bleinds yn methu aros iddo gyrraedd!)

Buo ni hefyd yn paratoi bocsys yn flynyddol i Teams 4 U a chafodd ein merch Gwenno Lois ei bedyddio yno ar Ragfyr y 1af 2013. Roedd mynychu'r Gwasanaeth Canwyll Noswyl Nadolig 2019 gyda'i naws hyfryd yn brofiad arbennig arall sydd wedi aros yn y cof.

Blynyddoedd Hapus iawn…..Diolch am y Croeso.

Lluniau tudalen

## EGLWYS UNEDIG Y FRON A'R BRWCWS.

Dydd Sul, Chwefror 6ed

Oherwydd bod ein Gweinidog y Parch. Ddr Andras Iago yn gorfod hunanynysu daeth Dr. Prydwen Elfed-Owens atom ar fyr rybydd. Iona Edwards oedd yr organyddes.

Yn anffodus yr un oedd y sefyllfa y Sul canlynol ac oherwydd hyn ni chafwyd gwasanaeth.

Erbyn i'r rhifun hwn o'r Bigwn ddod allan bydd Gwasanaeth o Ddiolch wedi ei gynnal yng Nghapel Brwcws brynhawn Sul Chwefror 20ed'

Prynhawn Sul Mawrth 13eg mi fydd gwasanaeth uno y ddwy eglwys ac edrychwn ymlaen at gyfnod newydd o gydweithio a chydaddoli fel un Eglwys. Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth.

## Adloni Darllenwyr Dinbych a'r fro!

Ydych chi yn hoff o adloni? Beth am yrru unrhyw ddarn o waith greadigol megis darn o farddoniaeth neu ryddiaeth er mwyn adloni darllenwyr Dinbych a'r fro. Gyrrwch eich gwaith i'r ebsot canlynol - ybigwn@hotmail.co.uk

J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

# Drama Ddoniol

gan Rob Evans

Fel gwobr am eistedd o flaen y cyfrifiadur trwy'r bore roeddwn wedi gwneud addewid i fi fy hun i gael prynhawn efo'r camera yn dilyn yr afon o dafarn yr Angel ym Mhontneddfechan hyd at Sgwd Gwladys. Roeddwn i wedi gwneud brechdanau ac roedd y bag wedi'w bacio felly, ffwrdd â fi. Roedd rhaid cael tanwydd a phiciais i mewn i orsaf betrol, llenwi'r tanc, twrio yn fy mhoced am y mwgwd a mynd i mewn i dalu. Doedd neb yn aros wrth y til ond roedd yn amlwg bod y ferch hanner ffordd trwy ddelio efo cwpl parchus iawn eu golwg. Dyma nhw yn dod yn ôl efo boteli o ddŵr, y gŵr yn dod heibio fi ond y wraig yn aros tu ôl i mi.

Roedd yn amlwg i mi fod y ferch wedi tynnu ei sylw ar ryw 'meal deal' oedd y cwmni yn cynnig. Rhywbeth fel - am bob pecyn o frechdanau allwch chi gael potel o ddiod, bar siocled neu greision am bris rhatach na phrynu nhw ar wahân. Dw i ddim yn sicr a oedden nhw mor awyddus â hynny ond, chwarae teg, roedd y ferch wedi trio'i gorau. Dyma sut aeth y sgwrs:

"Right" meddai'r ferch, "you can have a bar of chocolate each now."

Trodd y dyn at y silffoedd hir o bob math o barau o siocled a dewis barau Bounty a'u pasio at y ferch. Mae hi'n sganio'r côd a dweud.

"Sorry those don't appear to be in the deal." Mae'r dyn yn rhoi'r Bounty yn ôl efo'r lleill a dewis KitKats.

Mae'r ferch yn eu sganio nhw ac yn dweud "Sorry, those aren't in the deal either"

Mae'r KitKats yn mynd yn ôl ac mae'r dyn yn trio'r Marathons.

Yr un peth eto "Sorry they don't seem to be in the deal either"

Rŵan dw i'n clywed ei wraig tu ôl i mi yn giglo, troais ati hi a dweud "Seems very difficult to get something for nothing here isn't it!"

"This could take some time" medde hi ac wedyn dweud wrth ei gwr "I think I'll wait in the car Frank."

Frank rŵan yn gofyn i'r ferch "Could you tell me which ones qualify for the deal then."

Hithau'n dweud "I don't know, I suppose you'll have to try them all, I think all the crisps are included."

Trodd Frank at y creision ond, y ffordd wnaeth o edrych arnaf fi yn amlwg doedd o ddim yn ddyn creision. Cododd ddau becyn a mynd tuag at y ferch, newid ei feddwl a rhoi nhw'n ôl ar y silff.

"It's alright, I'll just have the sandwiches and the water." Medda fo wrth y ferch.

"Ah" medda'r ferch "that will cost you more because its no longer a 'meal deal'"

Erbyn hyn roeddwn i'n gweld y dyn yn colli'r ysbryd i fyw ond, chwarae teg roedd o dal i fod yn gwrtais. Edrychodd ar y creision ar y silff ac fel dyn oedd wedi colli brwydr fawr y diwrnod, dewisodd dau becyn a'u rhoi nhw ar y cownter.

"There we are," medde'r ferch yn orfoleddus. "put your pin number in please, yes, its all gone through. Enjoy the rest of your day!

Wrth iddo fy mhasio ar ei ffordd at y drws dywedais "you couldn't make it up could you?"

"Not without an awful lot of imagination" medde fo," sorry to have kept you waiting!"

Nes ymlaen pan o'n i'n cerdded wrth ochr yr afon ac yn mwynhau heddwch y dydd eisteddais ar garreg ac estyn i mewn i fy mag am y brechdanau. O diar! Roeddwn i wedi eu hanghofio, efallai dylwn i wedi cymryd mantais o'r 'meal deal'.

Na, dw i ddim yn meddwl, roedd yn llawer haws i wylio'r ddrama yn mynd ymlaen o flaen fy llygaid. Dydy chwarae rhan y prif gymeriad ddim yn hwyl pob tro!

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

Mark John Young




Dinbych Isaf - Annibynnol


Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk



# Y Diweddar PARCHEDIG CLEDWYN PARRY AR ÔL OES HIR O WEINIDOGAETHU



Bu farw'r Parchedig Cledwyn Parry, Dinbych, yn 97 oed, yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl cyfnod byr o gystudd. Lai na dwy flynedd yn ôl bu'n dathlu 70 mlynedd yn y weinidogaeth.
Yn frodor o Gaernarfon, bu ganddo yn ystod ei oes naw gofalaeth, a gofal am ugeiniau o gapeli, gan wasanaethu am ddeugain mlynedd yn Nyffryn Clwyd.
Roedd yn un o naw o blant a fu'n ffyddlon yng nghapel Ebeneser, Caernarfon. Dechreuodd bregethu yng nghapel bach Tŷ'n Lôn ger Caernarfon, yn ddwy ar bymtheg oed. Un o'i frodyr oedd Geraint Parry, y nofelydd poblogaidd.
Bu yng ngwasanaeth post y Llu Awyr yn y dwyrain pell adeg yr Ail Ryfel Byd, a phregethu yn Colombo, Sri Lanka cyn mynd ymlaen i Hong Kong. Dychwelodd i fynychu Coleg Handsworth y Methodistiaid yn Birmingham a rhoi oes o wasanaeth i eglwysi enwad y Wesleaid ledled Cymru.
Cychwynnodd yng Nghricieth a'r Rhos. Symudodd i Gonwy ac i'r de i Lanbedr Pont Steffan, cyn mynd yn ôl i'r gogledd, a threulio cyfnodau ym Mlaenau Ffestiniog, Bethesda, Dinbych, Rhuthun a'r Rhyl. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n fawr ei ofal o Eunice, ei wraig, y cyfarfu â hi mewn cynhadledd Fethodistaidd, cyn ymddeol i Ddinbych. Cyfunodd hyn â bod yn gaplan mewn sawl ysbyty.
Byddai ganddo storïau cynnes a ffraeth am ei brofiadau, ac wrth wynebu enciliad capeli, gwyddai yn well na neb bod angen addasu i'r oes, rhoi'r gorau i ofalu am adeiladau, a newid trefn addoli. Roedd yn gas ganddo gulni crefyddol. Yn ŵr eangfrydig a llengar, roedd yn eithriadol o hyddysg yn ei faes, ac eto'n meddu ar hiwmor cellweirus.
Bydd hiraeth ar ei ôl yng nghapel Pen-dre, Dinbych ac ymysg ei blant, Catrin, Siân a Gwynedd, a'u teuluoedd, ei wyrion ac wyresau, Lliwen, Mared, Caeron, Steffan a Gwydion, a'i or-ŵyr Twm Llew.

Oddi wrth:
Heini Gruffudd, heini@gruffudd.org 2 Lôn Rhianfa, Abertawe SA1 6DJ
07983506805

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Ysgol Twm o'r Nant

Dyma ni ar drothwy diwedd hanner arall yma yn Nhwm o'r Nant. Byddwn yn ffarwelio a Mrs Ceri Roberts ar ddiwedd y hanner tymor yma, dymunwn yn dda iddi wrth iddi ganolbwyntio ar ei swydd yn Ysgol Pen Barras.
Buom fel ysgol yn dathlu Dydd Miwsig Cymru. Ac rydym yn ffodus iawn o gael arian gan y Siarter Iaith i brynu bocs sain newydd ar olwynion. Cawn ddisgo allan amser chwarae nawr a chael gwrando a dawnsio i gerddoriaeth Cymraeg.
Fe drefnodd y cyngor ysgol gyda chymorth Mrs Ceri Roberts ein bod yn casglu ar gyfer bocsys 'Baby Basics' Daeth llu o nwyddau babi i'r ysgol ac aethant a



chyfranwyd yr ysgol at yr achos yn hael iawn. Diolch i'r holl rieni a phlant a roddodd gyfraniad.











Uned dan 5

Rydym wedi cael hanner tymor arall llawn hwyl a sbri yn yr Uned Dan 5. Cawsom ymweliad arbennig gan Mistar Urdd wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 100. Roedd pawb wedi dotio yn cael canu Pen-blwydd hapus iddo ar fuarth yr ysgol. Cawsom fisgedi Mistar Urdd, gemau a dawnsio wrth fwynhau'r dathliadau. Braf oedd clywed bod ein cyfraniad o ganu 'Hei Mistar Urdd' wedi cyrraedd y brig yn y Guinness world book of records am nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu'r un gan ar Twitter o fewn awr. Llongyfarchiadau mawr i'r Urdd.



Diolch yn fawr i Chwaraeon Sir Ddinbych am y sesiynau beics balans cafodd y plant amser bendigedig yn ymarfer a datblygu sgiliau.







Rydym wedi bod yn brysur yn datblygu sgiliau mathemategol yn yr ardal tu allan ac yn y dosbarth wrth edrych ar arian a siapiau 2D a 3D.
Mae'r disgyblion wedi bod yn astudio'r stori 'Un noson o rew ac eira' dyma'r plant yn chwilio am y cymeriadau o'r stori yn yr ardal tu allan.
Ac yn olaf mae'r gemau gaeaf Olympaidd wedi bod yn boblogaidd iawn yn yr uned dan 5, mae'r plant wedi bod yn creu medalau, yn ogystal â chwarae gemau cyrlio, rasio sgio i lawr y llethr wel son am hwyl! Efallai bydd seren y dyfodol yn ein plith! Dymunwn hanner tymor hapus i bawb.






Uned dan 7
Rydym wedi bod wrth ein boddau yn ystod yr wythnosau diwethaf yn dysgu mwy am yr adeiladau diddorol sy'n yn ein tref. Cawsom amser difyr yn dysgu hanes a sgetsio yr hen abaty sydd yn agos iawn at yr ysgol. Rydym wedi ymchwilio a chreu ffeil o ffeithiau am Gastell Ddinbych a darganfod mwy am gestyll mewn rhannau eraill o Gymru.
Yn ogystal a hyn rydym wedi dathlu penblwydd arbennig yr Urdd, Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Diogelwch ar y we._
Ar ôl gwyliau yr hanner tymor rydym yn trefnu trip i ymweld a'r castell i ddechrau ein thema newydd 'Cymry ydym ni.' Cewch glywed yr hanes cyn hir…



Uned Dan 9
Rydym wedi bod yn arbrofi gyda golau yn yr uned a gweld pa fath o lenni fyddai yn addas ar gyfer ystafell wely babi. Cawsom arbrofi yn y babell ddu a dysgom sut i fesur goleuni gan ddefnyddio system LUX.




Cawsom flas ar fynd i'r gofod drwy gamu i mewn i'r gromen ofod. Fe ddysgom ni am y cytser gwahanol a gwylio sioe o ser a planedau uwch ein pennau.



Trist oedd gorfod ffarwelio a Mrs Ceri Roberts o'r uned. Roedd rhaid gwneud hyn yn sydyn ddiwedd y dydd gan bod neges wedi dod ein bod yn gorfod cau yr ysgol oherwydd storm Eunice y diwrnod canlynol. Cawsom roi gerdyn arbennig iddi a gobeithio y cawn gyfle i gael parti ffarwel eto. Bydd colled mawr ar eich ôl chi Mrs Roberts. Cofiwch alw draw am baned ac 'in gweld.



Uned dan 11

Wel mae'r plant wedi bod yn brysur y tymor yma! Rydym wrth ein boddau gyda'r thema 'Y 60'au' ac wedi ymchwilio i mewn i llawer materion dwys yn son am hanes Dr Martin Luther King a Rosa Parks. Cawsom PC Gareth i mewn i siarad gyda'r plant am faterion yn ymwneud a siarad ar-lein gyda ffrindiau.



Roedd llwyddiant mawr yn yr ysgol hefyd gyda'r disgyblion wrth eu boddau yn chwarae yn erbyn ysgolion eraill o'r ardal! Da iawn nhw!






BROOKHOUSE MILL


Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Dydd Sul 12-6 Dydd Llun - ar gau
Dydd Mawrth- Gwener 12-3, 5.30 tan hwyr
Dydd Sadwrn ar agor trwy'r dydd
Ffôn: 01745 813377

# Nid Chwarelwr ydwyf i Rhan 2

**Yr ail ddiwrnod o daith Llwybr y Llechi**
**Bethesda i Llanberis**
11.6km 7.2milltir

Heibio i'r hen chwarel ym Methesda, ar i fyny am Fynydd Llandegai gan basio chwarel fawr Penrhyn ac anelu at y gors ganol rhwng Bethesda a Llanberis. Y gors yn wlyb socian wedi cwpwl o stormydd a glaw dros nos ond y dydd yn ffein. Cyrraedd Capel Sardis gyda golygfeydd o'r arfordir a'r môr cyn hynny. Deiniolen ar y dde, ond dros y bryn at Dinorwig ydi'r daith.

**Crawiau**



Heibio Capel Sardis, gwych o enw, gwych o olygfa. Lawr wedyn drwy goedwig gynhenid odidog a chyrraedd Ysbyty y Chwarelwyr yn Llanberis i ddechrau.

**Ysbyty y Chwarelwyr**

Petai ysbyty heddiw i weithwyr ar gael
Onid gofynnwn "Pam fod yr amodau mor wael?"
Mae ysbyty yn wych i helpu'r claf
Gerllaw Llyn Padarn a'r olygfa yn braf,
Yn le i wella a dod yn iach
Neu'n le i farw, bobol bach.
Roedd marw'n ifanc yn fater o ffaith,
Marw ynghanol peryglon gwaith.
Roedd anafiadau'n ribidires
Er mwyn gweithio, cael ychydig o bres.
Iechyd a diogelwch nid oedd yn bod
Dim ond y llechi'n mynd a dod
Gan greu damweiniau, diawl o boen.
Y llechi'n arfau ac yn hollti'r croen
Neu wasgu'r esgyrn i mewn i'r llawr
Gan dorri ewyllys cymeriadau mawr;
Roedd angen ysbyty, honno'n aml yn llawn
Oherwydd roedd y telerau yn wael iawn, iawn.

**Amgueddfa Lechi Llanberis**

Ger chwarel Dinorwic ac yn yr Amgueddfa Llechi, difyr oedd gweld yr hen hanesion:

Rwbelwr Bach oedd yn clirio y gwastraff ac ef oedd yn dyheu i fod yn Jermon (Journeyman) sef yr un oedd yn gosod y ffrwydron a chwalu'r graig. Ffiar oedd enw'r lympiau o lechi oedd yn cael eu chwythu o'r graig. Cwt Mochel Ffiar oedd y lle saff rhag y ffrwydrad. Canu Heddwch oedd y term fod y ffrwydro drosodd ac yn amser i ail gydio yn y gwaith. Ponc oedd haen hir o le i weithio gydag enwau diddorol: Penrhyn Bach, Twll Glyndŵr, Abysinia, Pen Great, Awstralia, Banc Teiliwr, Yr Aifft, Panws, Lymion a Poncs a Braich.



**Llun i gadarnhau nad chwarelwr ydwyf i!**




Ladies, Countess a Duchess oedd yr enw ar lechen a hynny yn dibynnu ar ei maint

**Morgrug**

Ar y graig fel morgrugyn – ar ei raff
Fel ar ŵe pry copyn,
Hongiai ar grib y dibyn,
Rhwygai hollt drwy'r graig ei hun.

O naddu tlodi'r dyddiau – a hollti
Yr elltydd a'r llethrau,
Byw rhain ddrwy ddyfalbarhau
Criw'r hogiau'n rhwygo'r creigiau.

Gwŷr gwâr ar graig o arian – a rwygodd
Drwy y graig ei hunan,
Trwy'r llwch yn tirio llechan
Ar y graig fel morgrug mân.

**Arwel Emlyn**



## Y Gornel Goginio

# Bwydlen Brecwast Sul y Mamau

*I ddechrau*

## Crymped gyda eog wedi ei fygu a ŵy wedi sgramblo.



**Cynhwysion**

2 wy
2 lwy fwrdd o hufen dwbl
Halen a phupur
1 crymped
Eog ei fygu
Menyn

**Dull**

1. Chwisgiwch yr wyau a'r hufen yn y fowlen.
2. Ychwanegwch binsied o halen a phupur.
3. Rhowch y crymped i dostio yn y tostiwr.
4. Rhowch y menyn yn y soban a gadewch iddo doddi dros dymheredd canolig.
5. Ychwanegwch y gymysgedd i'r sosban. Defnyddiwch lwy bren i droi y gymysgedd.
6. Coginiwch yr wy ar dymherdd isel gan gymysgu yn rheolaidd. Peidiwch gor goginio.
7. Rhowch fenyn ar y crymped.
8. Rydych yn barod i blatio. Rhowch y crymped ar y plat gan lwyo yr wy yn ofalus ar ei ben.
9. Rhowch ddarnau man o eog wedi ei fygu a'r ben yr wy.
10. Rydych yn barod i weini.

*I orffen*

## Treiffl granola gyda ffrwythau ffres a iogwrt mêl.



**Cynhwysion**

Granola
Iogwrt mêl Llaeth y Llan
Llond llaw o fafon a llys (ffres neu wedi rewi)
2 lwy fwrdd o Siwgr

**Dull**

1. Rhowch y ffrwythau mewn sosban gyda'r siwgr a'r dymheredd isel.
2. Gadewch i'r siwgr doddi a chreu sudd gyda'r ffrwythau.
3. Rhowch y ffrwythau mewn bowlen i'w oeri yn yr oergell.
4. Defnyddiwch fowlen wydr i greu eich treiffl.
5. Rhowch lwyed o'r granola yng ngwaelod y fowlen.
6. Ychwanegwch lwyed o'r iogwrt a wedyn y ffrwythau.
7. Gwnewch hyn nes bod y fowlen yn llawn.
8. Rydych yn barod i weini.




## Cacennau Cri

**Cynhwysion**

100g o fenyn wedi'i gymysgu â lard
225g o flawd codi a phinsiad o halen
75g o siwgr mân
75g o gyrens
½ llwy de o fêl
1 wy canolig, wedi'i guro

**Offer**

llwy bren fawr
powlen fawr
chwisg trydan
radell neu badell ffrio
rac oeri
rhidyll

**Dull**

1. Mewn powlen, cymysgwch y menyn a'r lard i mewn i'r blawd a'r halen nes bod y gymysgedd yn debyg i friwsion bara.
2. Ychwanegwch y siwgr, cyrens a'r mêl a'u troi'n dda.
3. Arllwyswch yr wy i mewn a'i gymysgu nes bod gennych does cadarn.
4. Rholiwch y toes ar fwrdd â blawd ysgafn arno nes bod trwch y toes rhwng 0.5-1cm. Torrwch y toes i gylchoedd.
5. Cynheswch y radell neu'r badell ffrio dros wres canolig. Irwch gydag ychydig o fenyn. Coginiwch y cacennau am oddeutu 3 i 4 munud bob ochr, nes eu bod yn frown euraidd ac wedi codi ychydig.
6. Gweinwch y cacennau ar unwaith wedi'u hysgeintio ag ychydig o siwgr mân.

/gwasg.com
[redacted]

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

# Cornel y Plant

## Dydd Gŵyl Dewi

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| d | c | e | r | t | y | u | i | o | w | c |
| c | e | n | h | i | n | e | n | u | ff | b |
| y | n | w | b | s | o | r | m | j | r | a |
| m | n | dd | i | ph | ff | w | c | j | o | s |
| r | i | ll | l | s | m | n | b | g | g | i |
| u | n | b | s | c | a | w | l | f | h | l |
| p | p | b | s | a | t | n | g | d | ng | c |
| w | e | l | g | g | w | g | t | d | ph | ô |
| a | d | e | t | y | ff | ch | m | n | o | r |
| t | r | a | dd | o | d | i | a | d | u | o |
| g | o | r | y | m | d | a | i | th | i | p |





Dewi Sant
cennin Pedr
cenhinen
traddodiad
gorymdaith

ffrog
cawl
Cymru
côr

## Cennin Pedr Blwch Ŵy

**Bydd angen:**

- Un cwpan o focs ŵy
- Glud PVA
- Siswrn
- Paent oren neu felyn
- Brwshys paent
- Cerdyn gwyrdd neu felyn
- Templed cennin Pedr




**Templed cennin Pedr**

1. Tynnwch linell o amgylch y templed cennin Pedr a'i dorri allan
2. Paentiwch y cwpan o'r blwch wyau yn felyn neu'n oren, yna gadewch iddo sychu.
3. Gludwch y cwpan ŵy i ganol y blodyn gan defnyddio glud PVA. Yna ychwanegwch y stribed o gerdyn gwyrdd i greu coesyn.
4. Wedi iddo sychu, gellir ei hongian neu ei arddangos ar y wal.




## Taflen Liwio Wrth Adio Dydd Gŵyl Dewi

6 = du
5 = brown
4 = lliw croen
3 = melyn
2 = coch
1 = llwyd






# 40,000 o wylwyr ar-lein i gynllun cefn gwlad wrth ddathlu'r pen-blwydd cyntaf

Wrth i gynllun gwledig a sefydlwyd i hybu cryfder meddwl ddathlu ei ben-blwydd cyntaf, mae 'Nerth Dy Ben' yn dathlu'r ffaith ei bod wedi cyrraedd dros 40,000 o wylwyr ar-lein yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

Wedi'i sefydlu gan chwe ffrind yn wirfoddol, mae'r prosiect yn rhoi llwyfan i unigolion rannu profiadau cadarnhaol, yn Gymraeg, am fyw a gweithio yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r criw wedi eu syfrdanu gan yr ymateb.

Lansiwyd sengl newydd 'Byw i'r Dydd' ar y cyd â'r wefan flwyddyn yn ôl, ac mae'r gân wedi cael ei ffrydio dros 36,000 o weithiau ers hynny. Chwaraeodd BBC Radio Cymru y darllediad cyntaf yn fyw ar yr awyr ac mae wedi parhau i gael ei chlywed ar ei donfeddi'r radio ac ar-lein gydol y flwyddyn.

Mae bron i 3000 o bobl yn dilyn eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac Instagram) a gwyliwyd sgwrs fyw ar-lein gyda'r rhedwraig ultra a'r gyflwynwraig, **Lowri Morgan**, a'r cneifiwr peiriannau gorau yn y byd, **Richard Jones** o Lyndyfrdwy, gan bron i 2000 o bobl.

Dywedodd **Alaw Owen**, sefydlwr gyfarwyddwr o Ddinbych a chadeirydd Nerth Dy Ben: "Rydyn ni wedi ein syfrdanu gan lwyddiant y fenter. Mae'r gefnogaeth gan gyfranwyr wedi bod yn anhygoel, nhw ydi'r craidd ac mae cryfder meddwl wedi taro deuddeg gyda chymaint o'n dilynwyr. Gall negyddiaeth effeithio ar ein bywydau bob dydd, ond mae Nerth dy Ben yn frwd dros gadw'r cydbwysedd trwy atgoffa pobl i ganolbwyntio ar eu cryfderau.

"Ein bwriad o'r cychwyn oedd creu platfform trwy amrywiaeth o gyfryngau, yn gerddoriaeth, fideo, sgyrsiau ar y we, podlediadau, straeon neu luniau i greu cynnwys diddorol oedd pobl yn gallu uniaethu ag o. Mae'r cynnwys hefyd wedi llwyddo i roi ymdeimlad o gymuned i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad.

"Mae Nerth dy Ben yn lle i bawb sydd angen eu hatgoffa, am y chwistrelliad bach ychwanegol yna o egni a hyder. Yn hytrach na meddwl am yr hyn na allwn ni wneud, mae Nerth Dy Ben yn ymgyrchu i atgoffa'n hunain o'n cryfderau o dro i dro. Mae o'n gerrynt eithriadol o bwerus i ni ei ddefnyddio, ei gydnabod a'i rannu.

"Dan ni'n llwyr sylweddoli na all pawb feddwl am gryfder o hyd, ac mae yna wybodaeth ar y wefan am elusennau a gwasanaethau gwerthfawr iechyd meddwl sy'n gallu cynnig cymorth i unrhyw un sydd ei angen yn y Gymraeg."

Mae cyfranwyr i'r prosiect sy'n rhannu eu profiadau eu hunain o gadw'n gryf yng nghefn gwlad Cymru yn cynnwys ffermwyr, athrawon, pêl-droedwyr, chwaraewyr rygbi, cigyddion, cantorion, actorion a myfyrwyr.

Bu Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, **Glyn Roberts** a'i deulu yn gyfranwyr am gyfnod o fis yn ystod y flwyddyn, gan rannu syniadau a chynghorion am yr hyn sy'n eu cadw nhw'n gryf mewn corff, meddwl ac ysbryd yn ystod unrhyw gyfnod heriol.

Yn ôl un dirprwy bennaeth o Sir Ddinbych sydd wedi gweld cryfder y prosiect, **Siân Alwen** o Ysgol Glan Clwyd: "Rydym yn falch o gael dymuno pen-blwydd hapus i Nerth Dy Ben. Mae parhad y wefan a'i hesblygiad dros y cyfnod nesaf yn greiddiol. Mae cynnal ei hansawdd ac ymestyn ar yr hyn a ddarperir mor bwysig. Mae hi ymysg yr adnoddau cyfrwng Cymraeg mwyaf gwerthfawr sydd gennym yn yr ysgol."

Alaw Owen, ei brawd **Ifan Owen** o Landdoged, Llanrwst; **Nia Parry**, cyflwynydd a chynhyrchydd teledu o Rostryfan, Caernarfon; **Elen Lois** o Langernyw, **Nia Lloyd** o Rydycroesau, Croesoswallt ac **Amanda Harries** o Plwmp, Ceredigion yw'r chwe chyfaill sy'n rhan o sefydlu'r prosiect.

Defnyddiodd y cyflwynydd teledu Nia Parry ei sgiliau yn ystod y flwyddyn i greu podlediad arbennig yn cyfweld ag Alaw, gan mai ei gweledigaeth hi ysgogydd sefydlu Nerth Dy Ben. Cafodd Alaw ei hanafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiad car dair blynedd yn ôl a chafodd ei theulu a'i ffrindiau eu grymuso gan gryfder Alaw ei hun, wrth iddi wella ac ennill cryfder yn dilyn y digwyddiad difrifol.

Mae cynlluniau ar y gweill i gyflogi Swyddog Datblygu, ynghyd â Swyddog Marchnata a Chynnwys Digidol, yn ddibynnol ar geisiadau ariannol. Mae'r grŵp wedi sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol lleol gan gynnwys y CFfI ac yn ddiolchgar i Fenter Iaith Sir Ddinbych, Gwynt Brenig Cyf, Cronfa Gymunedol Clocaenog a Sefydliad Ashley am gyllid cychwynnol i ddatblygu'r prosiect. Mae'r criw hefyd wedi gweithio gydag S4C i greu Clwyd TiFi, sianel gymunedol ddigidol sy'n targedu'r hen sir Clwyd.

"Yn amlwg, mae Covid-19 wedi chwalu rhai o'n cynlluniau gwreiddiol," eglura Alaw, "ond rydym yn awyddus i ddatblygu ar ein sylfeini ac ehangu ein cynulleidfa wrth symud ymlaen. Gan dargedu ardaloedd siroedd Conwy a Dinbych ond gyda'r deunydd yn berthnasol i Gymru gyfan, rydym yn gobeithio datblygu a pharhau'r gwaith o godi ymwybyddiaeth am gryfder meddwl gyda mwy o gynnwys digidol a digwyddiadau cymunedol i'r dyfodol."

I ddarganfod mwy am y prosiect, Nerth Dy Ben, ewch i'r wefan <u>www.nerthdyben.cymru</u>

**<u>Ffion Clwyd Edwards, pi-ar, ffion@pi-ar.cymru 01745 550123, 07702 048184</u>**



# TRUGAREDDAU!

"Os gwnei di roi'r dillad wyt ti am fynd efo ti ar ben y cwpwrdd yn fan'na, fe wna i roi nhw yn y cês," medda' hi wrth fo.
"Oce, iawn. Ti'n gw'bod yn iawn un mor wael ydw i am bacio," medda' ynta' gan droi i chwilio am ei grysau a'i siwmperi.
"B'le mae fy sanna' i?" meddai o wedyn ar ôl chwilio ymhobman y medrai o feddwl amdano.
"Wyt ti 'di edrach yn y cwpwrdd tanc?"
"Naddo," gan feddwl ei fod o'n lle dwl i gadw sanna.
"Dyna fo. Mae popeth o mhetha' i yn fanna," medda fo ymhen dau funud gan deimlo'n hynod o falch ohono'i hun.
"Dyna'r cyfan wyt ti angan?" gofynnodd hitha' gan godi'i haeliau.
"Wel dydan ni ond yn mynd i ffwrdd am bedwar diwrnod."
"Beth am rwbath wrth gefn? Ti'n gw'bod fel y gall hi droi'n oer yn sydyn iawn 'radag hon o'r flwyddyn."
"Mi fydda' i'n iawn sti. Hogia Llanbêr yn hogia calad," atebodd ynta' mor styfnig ag erioed gan ychwanegu, "nefoedd yr adar dwyt ti ddim am fynd â'r holl betha 'na efo ti? Mae gen ti fwy o ddillad yn fan 'na na....nag......"
Ar y funud arbennig honno fedrai o ddim meddwl am unrhyw un fyddai gyda mwy o ddillad.
"A pham wyt ti'n mynd â saith pâr o 'sgidia? Fydda' Imelda Marcos ddim yn mynd â hynny o 'sgidia efo hi."
Calla' dawo ydy' hi efo fo, meddyliodd hi gan droi at yr ystafell ymolchi i chwilota am ei phethau.
Fe fu hi yno am o leiaf chwarter awr, ac roedd o'n mynd yn anniddig braidd. Doedd o ddim wedi cael cyfle i siafio hyd yn oed, a hitha' wedi treulio hanner y bore yn sbriwsian ei hun yn yr unig ystafell ymolchi oedd yn y tŷ.
"Os wnawn ni fudo o'r tŷ hwn ryw ddydd, mi rydwi am 'neud yn siwr fy mod i'n mynd i dŷ efo dwy os nad tair ystafell 'molchi," dywedodd wrtho 'i hun.
"Nefoedd yr adar!" gwaeddodd pan welodd y silff ffenest' yn orlawn o boteli siampŵ, conditioners, gel ar gyfer y gawod ac eli at bob math o heintiau, a thrugareddau nad oedd yn gwybod beth oedd eu pwrpas.
'Roedd o'n gallu rhoi'i drugareddu ymolchi o mewn bag bychan, meddyliodd yn hunan foddhaus. Doedd o ddim yn un o'r dynion modern hynny a oedd yn defnyddio deunydd arbennig i dylino croen ei wyneb, a siswrn arbennig ar gyfer trin ei aeliau aballu.
Yna aeth i chwilio am ei dabledi – dyna un o anfanteision heneiddio. Doedd dim modd mynd i nunlle am ddiwrnod neu ddau heb fynd â hanner cynnyrch meddygol siop gemist efo chi.
"Wyt ti wedi gweld fy nhabled hi?" oedd y gri ganddi hi o berfeddion yr ystafell fyw.
"Pa dabledi?"
"Ti'n gw'bod, y tabled coch y mae fy llyfr electronig arno."
"O", meddai ynta' heb ddeall yn llwyr yr hyn oedd hi'n ei dd'eud gan fod ei feddwl o ar bethau aruchel ar y pryd megis yr hyn a fyddai yn destun ei golofn yn **Y Bigwn** y mis canlynol.
Yna gwelwodd wrth ei gweld hi yn dod â llond ei haffla' o offer trydanol ato yn amrywio o liniadur i sychwr gwallt a curling tongs, llathenni o geblau trydan a'r "caniau" ar gyfer clywed heb amharu ar unrhyw un arall.
"Wyt ti'n meddwl fod gen i drelâr Ifor Williams?" oedd ei ymateb cegrwth.
"Gad pacio'r car imi," meddai hi. "Be' wyt ti isio ar dy frechdan – banana neu diwna?"
"Neith rwbath y tro," oedd yr ateb swta gan un a oedd â'i fryd ar gychwyn ar yr antur. B'yta ar gyfer bwydo'r injân oedd o, nid ar gyfer pleser.
Ymhen awr arall llwyddwyd i anelu trwyn y car yn y cyfeiriad cywir.
"Sgen ti rwbath imi i'w gnoi?" ychwanegodd, a hynny cyn cyrraedd y ffordd osgoi. Cyn iddyn nhw gyrraedd Llanfair Dyffryn Clwyd roedd o wedi sglaffio paced mawr o *wine gums*, ac yn teimlo'n rhyfedd braidd.
Ymhen pedair awr a hanner roedden nhw wedi cyrraedd pen eu taith gan ddifyrru eu hunain gan ddyfalu faint o bobl fydden nhw'n eu gweld ar strydoedd hynod o dawel pentrefi a threfi canolbarth Cymru.
Ar ôl paned a bisged (siocled, wrth gwrs) cafodd y teimlad annifyr ei fod o wedi gadael rhywbeth hanfodol gartref.
"Daria!" ebychodd.
"Be?"
"Fe fydd yn rhaid inni fynd adra ar unwaith."
"Pam?"
"Dwi wedi anghofio fy nhabledi pwysedd gwaed. Be' wna i? Dwi'n dechra' teimlo yn rhyfadd yn barod."
"Paid â phoeni."
"Sut fedra i beidio? Fedra i ddim byw hebddyn nhw. Ti'n gw'bod sut ydw i. Poeni am bob dim. Fe fydd y pwysedd gwaed yn saethu i fyny rŵan. Rown ni ar fin rhoi nhw yn y bag pan wnes ti ofyn imi pa lyfr darllen rown i isio."
"O, fy mai i felly."
"Wel ia... Dwi wedi ca'l syniad. Fe wna i ofyn i'r bychan alw acw p'nawn 'ma ac anfon nhw ar fyrdar gyda courier. Mae 'na siawns felly ca' i nhw bora 'fory."
"Fydd ddim rhaid iti 'neud hynny."
"Y, wrth gwrs bydd raid imi. Fe fydda' i ar biga' drain tan ga' i nhw yn fy nwylo."
"Wel beth ydy' rhain?" meddai hithau yn fuddugoliaethus gan chwifio'r tabledi o flaen ei drwyn. "Mae'n dda fod un ohonom yn cymryd ei amser wrth bacio."

Stan Lyall

Y BIGWN

## YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)

Gwefr heb Wifrau
AMGUEDDFA RADIO
Dilynwch ni ar flickr
Cwmulus
https://cwmulus.org/

## Profiad personol o'r radio

Diolch i Mrs. Mary Jones, Ffordd Rhuthun, am rannu ei hatgofion:

"Radio yn y Cartref

Roedd gynnon ni weiarles fawr iawn, pren, brown efo mesh lliw aur ar y blaen. Doedd dim trydan yn ein pentref felly roedd y weiarles yn gweithio efo batris. Roedd yna 5 falf yn y weiarles ac roedd o'n gweithio efo tri batri.
Y cyntaf oedd jar gwydr a elwid yn fatri gwlyb. Roeddem yn ei gymryd at ddyn yn y pentref, oedd yn byw ger yr afon, ac roedd o'n llwyddo i greu trydan o'r dŵr a oedd yn gyrru'r felin wynt - roedd o'n codi 6p am wefru'r batri. Y batri mawr arall oedd "High Tension". Roedd "Grid Bias" yn fatri bychan.
Byddai fy mam yn gwrando'n ddyddiol ar "Workers Playtime" yn dod o ffatrioedd gwahanol yn ystod amser cinio, yna "Womens Hour" am ddau o'r gloch bob prynhawn a doedden ni byth yn methu'r "Archers". Mi faswn i'n cyrraedd adre o'r ysgol i wrando ar "Mrs Dale's Diary".
Ar ddydd Sul byddem yn gwrando ar "Family Favourites" yn ystod amser cinio a oedd yn raglen ceisiadau gan filwyr a oedd yn gwasanaethu eu gwlad, ac yn cael ei gyflwyno gan Jean Metcalf, gwraig Cliff Mitchellmore.
Rôn i hefyd yn gwrando ar raglen Gymraeg wedi ei hysgrifennu gan y diweddar Parch. Idwal Jones sef "Galw Gari Tryfan". Ond roedd rhaid gofalu bod yna ddigon o bŵer i wrando ar newyddion chwech a naw o'r gloch."

**Oes gennych chi atgofion o wrando ar y radio? Fasech chi'n fodlon eu rhannu, os gwelwch yn dda? Cysylltwch â Gwefr heb Wifrau ar** gwybod@gwefrhebwifrau.cymru

## Digwyddiadau

*Diwrnod Radio'r Byd*




Ers 2011, mae Chwefror 13eg wedi cael ei ddathlu fel Diwrnod Radio'r Byd. Mae radio yn dal i fod yn un o'r cyfryngau mwyaf ymddiriedadwy a derbynadwy yn y byd, yn ôl gwahanol adroddiadau rhyngwladol. Thema eleni, felly, oedd "Radio ac Ymddiriedaeth".

Eitem o'r casgliad Dyma Radio Transistor Model 22 Alba o 1960, rhodd ddiweddar i'r Amgueddfa. Alba oedd enw masnachol A. J. Balcombe Cyf. a ddechreuodd gynhyrchu radios o safon dda am bris canolig yn y DU yn 1922. Ar ôl y rhyfel dechreuon nhw gynhyrchu modelau rhatach gan droi, yn 1963, i ddefnyddio cynhyrchwyr eraill i gynhyrchu nwyddau o bris isel ar gyfer y cyhoedd. Prynwyd yr enw gan Sainsbury yn 2016.

***'Newid yn yr Hinsawdd a Sut Mae ei Drwsio'* oedd teitl darlith ar-lein David Sprake,** Uwch-ddarlithydd yn adran Beirianneg Adnewyddadwy a Chynaliadwy Prifysgol Glyndwr, i ni yn ddiweddar. Cyflwynodd David drosolwg o ddibyniaeth gynyddol yr hil ddynol ar egni, gan ddechrau gyda'r Helwyr-Gasglwyr, a'r ffermwyr a'u dilynodd, oedd yn hollol ddibynnol ar oleuni'r haul. Arweiniodd darganfod tanwyddau ffosil at y Chwyldro Diwydiannol a'r angen am fwy o egni, heb ystyried bod llosgi'r tanwyddau yma yn gollwng carbon deuocsid i'r atmosffer ac yn codi tymheredd y Ddaear. Mae lefel y carbon sy yn yr atmosffer ar hyn o bryd yn uwch nag y bu ers miliwn o flynyddoedd a'r gofid yw y bydd y tymheredd yn dal i godi, heb saib. Mae tymheredd uchel yn dadmer y rhew ar y pegynnau ac yn codi lefel y môr, fydd yn boddi rhannau o'r arfordir ar draws y byd, fydd yn effeithio ar gynhyrchu cnydau a bwyd ac yn effeithio ar y gorsafoedd pŵer, fydd yn achosi ymfudo byd-eang.



Fferm Wynt Brenig

I osgoi'r sefyllfa yma, honnodd David fod yna ddigon o ffynonellau cynaladwy o egni glân yn y byd ar gael yn barod, petai'r bobl mewn awdurdod yn cael y rhyddid i'w defnyddio. Soniodd am y felin wynt fwyaf yn y byd, yn Tseina, sy'n cynhyrchu digon o egni wrth droi ei hwyliau un waith i gyflenwi un tŷ am ddiwrnod cyfan. Yn Nhecsas mae'n bosib cynhyrchu mwy o egni o oleuni'r haul mewn mis nag a wnaethpwyd o'r holl olew a ddefnyddiwyd yno erioed. Mae gorsaf bŵer argae mwyaf y byd, y Tri Ceunant, ar afon Yangtze yn Tseina wedi bod yn cynhyrchu trydan dŵr ers 2012. Y cynllun gorau, meddai David, yw defnyddio'r holl ddullliau i gynhyrchu egni glân gyda'i gilydd a defnyddio offer pwrpasol i ddal y carbon sy yn yr atmosffer yn barod, a'i storio – sef efelychu'r gwaith mae coed yn ei wneud yn naturiol.

### *Y Sefydliad Beirianneg a Thechnoleg*

Darlledwyd darlith Y Sefydliad Beirianneg a Thechnoleg trwy'r Amgueddfa yn ddiweddar. Astudiaeth achos i ddatblygiad ynni cymunedol yn ardal Abergwyngregyn, sef Ynni Anafon Energy, oedd pwnc Justin Mason y siaradwr a bu dros gant o bobl ar draws y DU a Ffrainc yn gwylio.



→

## Y darlithiau nesaf

Dyma'r darlithiau ar-lein nesaf yn y gyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan Cwmulus neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru:

Ar Fawrth 18fed, bydd Mike Farnworth (â gwestai arbennig) yn sôn am **Giraldus Cambrensis: sgwrsio a recriwtio o gwmpas Cymru, 1188** yn Saesneg. Bydd Mike yn rhoi cipolwg i ni ar fywyd yng Nghymru annibynnol yn ystod Oes y Tywysogion fel yr ymddengys yn llyfr Gerallt Gymro, ar ôl iddo hebrwng Archesgob Caergaint o gwmpas Cymru yn recriwtio dynion i ymladd yn y drydedd Croesgad. Cawn glywed am straeon rhyfedd gwahanol ardaloedd hefyd.

Ar Ebrill 29ain, bydd yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd yn siarad am **Canrif yr Urdd**. Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru ar ôl i Ifan ab Owen Edwards anfon llythyr at ddarllenwyr *Cymru'r Plant* yn rhifyn Ionawr 1922. Bu'r ymateb yn syfrdanol a bydd Myrddin yn edrych yn ôl ar ddatblygiad yr Urdd drwy'r ganrif. Y canfyddiad rhyfeddaf, meddai, yw bod cynifer o sefydliadau a changhennau o'n diwylliant cyfoes wedi'u gwreiddio yn gyntaf yng ngweithgareddau'r mudiad.

## Ymweld â'r Amgueddfa

Os ydych am ymweld â'r Amgueddfa, cysylltwch â ni ar gwybod@gwefrhebwifrau.cymru i drefnu apwyntiad os gwelwch yn dda.

31 Ionawr 2022
John Geraint Jones
18 Llys Marchell
Dinbych
LL16 4AR


Urdd 100 1922 - 2022

Annwyl John G Jones
Gair i ddiolch yn fawr iawn i Papur Bro Y Bigwn am eich siec o £600.00 tuag at Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 a bydd y cyfraniad yma yn mynd tuag at rhoi Y Fedal Gelf yn yr Eisteddfod. Mae eich cyfraniad hefyd wedi mynd yn erbyn targed Pwyllgor Apêl Tref Dinbych.
Gwerthfawrogwn eich cyfraniad a'ch cefnogaeth i'r Urdd, buan iawn daw yr amser erbyn hyn, ac rwy'n sicr fod pawb yn edrych ymlaen am Eisteddfod lwyddiannus.
Llawer o ddiolch.
Yn gywir

Siân Eirian

**Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau**

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
# R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych

Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT

GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Gwasanaethau i Chi
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# O'R LLYFRGELL

## GAEAF LLAWN LLES


Ymgyrch genedlaethol wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ydi hon sy'n cynnig cymorth i blant a phobl ifanc i deimlo'n well ar ddechrau 2022 ar ôl cyfnod anodd y pandemig.
Fel rhan o'r prosiect buom yn gweithio ar y cyd gyda Menter Iaith Sir Ddinbych i wahodd nifer o ysgolion yr ardal i Lyfrgell Dinbych i Sioe 'Mewn Cymeriad'. Seliwyd y sioe ar lyfr gwych Ifan Morgan Jones - 10 Stori o Hanes Cymru y dylai pawb eu gwybod! Cyflwynodd Hari Hanes y storïau yn ddifyr a hwyliog mewn gweithdy rhyngweithiol arbennig iawn. Daeth straeon ein cenedl yn fyw drwy'r cymeriadau hanesyddol o Gwenllïan i Barti Ddu gan addysgu'r plant am ddigwyddiadau pwysig sydd wedi siapio'n gwlad. Diolch arbennig i'r actor Sion Emyr o Ddinbych am gyflwyniad ymarferol, egnïol ardderchog.




## Dyma lyfrau gyhoeddwyd yn ddiweddar





Nofel am gyfeillgarwch, rhagrith a chymuned yw Hela. Ceir hanes criw o ffrindiau - Callum, Babo, Jac Do a Saim Bach - sy'n gorfod tyfu i fyny'n gyflym iawn wrth i'r gymuned, ei phobl a phob dim sy'n gyfarwydd iddynt gael eu chwalu'n yfflon.





**Hunangofiant yr actores a'r gomedïwraig dalentog, Carys Eleri, seren y gyfres 'Parch' ar S4C a'r sioe gomedi un fenyw, 'Lovecraft / Cer i Grafu, Sori, Garu!' Dyw marwolaeth ddim yn ddoniol, ond mae chwerthin yn iach yn gallu bod yn therapi. Mae cyfrol Carys Eleri yn trafod cyfnod anodd iddi hi ac i'w theulu yn gwbl ddi-flewyn ar dafod.**




**Dydych chi byth yn rhy ifanc i newid y byd! Darganfyddwch 100 syniad hwyliog i fod yn garedig ac i rannu llawenydd yn y byd o'ch cwmpas. Byddwch yn greadigol gyda briciau LEGO® a chewch eich ysbrydoli i ofalu am eraill, eich hunan a'r blaned. Cynlluniwch gerdyn diolch i gymydog neu ras lego, emoji LEGO i wneud i ffrind wenu, plannwch flodau sy'n garedig i wenyn a llawer, llawer mwy!**




**Addasiad dwyieithog gan Bethan Mai Jones o'r llyfr All About Diversity gan Felicity Brooks. Dyma lyfr sy'n helpu plant i ddeall ac ymfalchio (nid bod yn 'oddefgar' yn unig) mewn gwahaniaethau o bob math, gan ddatblygu hunanhyder a chan hyrwyddo cymdeithas gyfartal a theg sydd, yn ei dro, yn cefnogi datblygiad, addysg a lles pob plentyn.**



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)



TE YN Y GRUG
Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

# Difyrion Digidol

Mae'r Pandemig yn anffodus wedi bod yn ergyd drom i fwrlwm diwylliannol ein cymunedau – gyda'n neuaddau pentref, ysgolion, canolfanau, tafarnau a'n capeli yn dawel. Yr ydym yn mawr obeithio fod y rhod yn dechrau troi a'n bod yn wynebu'r gwanwyn a'r haf yn 2022 gyda gobaith y bydd digwyddiadau fel hyn yn raddol ddychwelyd, nid fel yr oedd hi o bell ffordd, ond o leiaf yn gallu cyfarfod a hynny'n ddiogel.

Gyda digwyddiadau yn raddol ailddechrau, mae hyn yn gyfle i son am adnodd dyfeisgar a hawdd i greu deunydd marchnata proffesiynol i'ch digwyddiad mewn canolfan (neu'n rithiol!), boed yn noson lenyddol, gig, cyngerdd neu dalwrn y beirdd.

Un ap sydd yn werth rhoi tro arni yw Canva. https://www.canva.com/ Mae Canva yn rhaglen hawdd iawn i'w ddefnyddio gan fod yna dempled dylunio at bob math o achlysuron – o bosteri i bamffledi ac mi fedrwch chwarae ag addasu fel dach chi isio. Nid oes raid bod yn arbenigwr mewn rhaglen gyhoeddi fel Quark neu Microsoft Publisher - mae'r fersiwn dwi'n ddefnyddio yn costio £10 y mis ond mae'r ap ar gael am ddim ar android https://play.google.com/store/apps/details?id=com.canva.editor neu ar apple https://apps.apple.com/gb/app/canva-design-photo-video/id897446215 - Yr unig wahaniaeth rhwng yr un yr ydych yn ei dalu amdano ydi'r nifer o dempledi sydd am ddim.

Gallwch ddefnyddio'r templedi gwahanol i greu bob mathau o bethau, yn cynnwys delweddau yn benodol ar gyfer mesuriadau delwedd Facebook neu Instagram. I bwyllgorau golygyddol papurau bro Cymru, mae'n werth rhoi ystyriaeth i'r ap hwn ar gyfer gosod eich papur bro.

Does yna ddim angen llwytho'r feddalwedd ar eich gliniadur ag mae'r cyfan yn cael ei wneud ar-lein. Os ydych chi'n digwydd colli fersiwn flaenorol neu ddileu rhywbeth yn ddamweiniol mae'n bosib mynd yn ôl i'w adfer. Mi fedrwch hyd yn oed wneud y cyfan ar eich ffôn clyfar drwy'r ap – mae hynny yn golygu mwy o ffidlian ond mae'n bosib iawn golygu ar eich ffôn clyfar. Mae hefyd yn bosib rhannu dogfen brosiect ag addasu rhywbeth ar y cyd. Gellir troi'r ddogfen meistr i fformat PDF wedyn neu fformatiau lluniau PNG neu JPG. Mae fformat JPG er enghraifft yn benodol ar gyfer cyhoeddi lluniau ar gyfer y We, gyda fformat PNG yn addas os ydych angen lluniau o ansawdd uwch.

Mae yna ap arall hefyd sy'n gwneud yr un gwaith sef hwn: https://create.vista.com/ Unwaith eto, gellir creu posteri o bob math, pamffledi a chylchlythyron o safon.

Gan fy mod wedi son sawl tro yn fy ngholofnau am bwysigrwydd technoleg i gyflawni nod yn ein bywydau, mae'r adnoddau hyn yn ffyrdd o hyrwyddo'n diwylliant cymunedol. Nid ar dechnoleg yn unig y bydd dyn neu ddynes fyw, ond mae'n help os ydio'n gwneud ein bywydau'n haws!

Os ydych chi'n rhan o fudiad, cymdeithas neu bapur bro ac yn awyddus i dderbyn hyfforddiant am ddim ar yr uchod, cysylltwch gyda mi ar deian.apRhisiart@wales.coop

## EGLWYS ST THOMAS DINBYCH (a chefnogwyr) Bore Coffi

Anfonwyd y swm anrhydeddus o £1397.00 i gynorthwyo plant yn Afghanistan fel canlyniad i'r Bore Coffi a stondin gacennau a gynhaliwyd yn Eirianfa ar Chwefror 5ed.

Cafwyd cefnogaeth wych i'r fenter.

Hoffai'r trefnwyr ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant yr ymdrech.

Cyflwynwyd yr arian i DEC AFGHANISTAN CRISIS APPEAL ac wrth gydnabod ei dderbyn, fe nodwyd ganddynt fod £349.25 wedi ei ychwanegu o ganlyniad i Gift Aid.

IONA THOMAS

## Gwefan Y Bigwn

Cofiwch am wefan y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae'r rhifynnau digidol yn dal yno hefyd.

Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

Digwyddiad Elusen y Maer | Mayor's Charity Event

Gofalwyr Ifanc/Young Carers a Chymorth i Ferched/Women's Aid



Noson gyda / Evening with

WEE BAG BAND

ar / on

Sadwrn 2 - 4 - 2022 Saturday

yn / at

Neuadd y Dref Dinbych | Denbigh Town Hall

Drysau'n agored 7y.h. | Doors opening 7p.m.

Tocynnau £20 Tickets

Yn cynnwys diod wrth ddod I mewn / including a drink on entry

Tocynnau ar gael / Tickets available

ar-lein trwy wefan / or on line on the following website

https:www.denbightowncouncil.gov.uk/cy/newyddion-a-digwyddiadau/ceili

hefyd


SIOP CLWYD—SIOP ELFAIR

## Atebion Chwefror 2022

**Ar Draws :**
8. Actiniwm
9. Aeddfed
10. Delw
11. India
12. Suro
13. Balerina
16. Glanio
18. Ogof
20. Aeron
21. Wrdw
22. Gorsaf
23. Arbediad
26. Lens
28. Rebel
30. Iago
31. Atomfa
32. Cricedwr

**I Lawr :**
1. Ecsema
2. Pitw
3. Bicini
4. Amod
5. Galargan
6. Addas
7. Beirniad
14. Enfys
15. Aorta
17. Abwyd
19. Gloddesta
20. Adferiad
24. Baltig
25. Amgrwm
27. Sami
29. Bwci
30. IKEA

## CROESAIR MAWRTH 2022



**Ar Draws :**

8. ... Farrow, actores
9. Taenwch hwn gyda brws
10. Mul
11. Mesur tir, deg mil metr sgwâr
12. Yn rhoi boddhad
13. Cyffrous
16. Un sy'n trin esgidiau
17. Grym sy'n atynnu popeth at ei gilydd
21. Galluog
23. Peryglus
24. Gwisgir hwn i ddangos edifeirwch
26. Gwlad rhwng Sweden a Rwsia
28. Y cyfnod cyn hanner dydd
29 a 30. (5,3) Gorchudd addurniadol i furiau

**I Lawr :**

1. Cweryla
2. Mae angen hwn i roi 29,30 yn sownd
3. Yn ymwneud â dramau cerdd clasurol
4. Dros ben llestri
5. Gwrthodiad i weithio
6. Egluro'n anghywir
7. Corff o bobl â rhywbeth yn gyffredin
14. Yn groes i dragwyddoldeb
15. ..... chwist, noson o chwarae cardiau
18. Gwisg swyddogol, gan filwr neu ddisgybl ysgol
19. Ymgom
20. Cwmwl o nwy yn y gofod
22. Sebon i olchi gwallt
25. Ardal yng Nghaliffornia sy'n arbennig an ei wîn
27. .... ar fryniau Dyfed, yn ôl Hergest






# Cyfarchion



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Myfanwy Jones, Dolawel a ddathlodd ei phenblwydd yn 95 mlwydd oed Chwefror 28ain.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 8 | 6 | | 5 | 3 | |
| | | | 3 | | | | | 7 |
| 1 | | | | 4 | | 6 | | |
| | 8 | | | 3 | | | 2 | 4 |
| 4 | | | 1 | | 8 | | | 3 |
| 2 | 1 | | | 5 | | | | |
| | | 7 | | 1 | | | | 9 |
| 6 | | | | | 2 | | 7 | |
| | 5 | 8 | | 7 | 3 | | | |

## Chwilair Sul y Mamau

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | A | S | B | A | W | G | M | F | Y | D | D | L | O | N | G | I | M |
| A | R | B | E | N | N | I | G | Y | L | C | F | O | S | H | O | R | A |
| T | S | S | F | G | H | A | E | L | P | A | R | D | M | M | F | H | F |
| G | R | H | Y | F | E | D | D | O | L | P | C | P | M | G | A | O | W |
| R | P | B | H | A | N | R | H | E | G | I | O | N | S | S | L | S | C |
| B | B | D | S | B | B | L | O | D | A | U | E | I | F | L | G | Y | G |
| C | A | R | I | A | D | U | S | Y | C | Y | M | A | M | P | A | N | Y |
| F | M | C | P | F | T | I | G | L | M | C | O | F | N | W | R | I | W |
| R | T | Y | O | O | P | P | E | R | T | H | Y | N | A | S | A | Y | R |
| B | Y | N | B | M | G | W | Y | L | I | A | U | F | F | R | I | N | D |
| C | L | O | P | L | A | N | T | L | T | E | U | L | U | O | L | I | F |
| P | S | R | T | C | W | F | D | O | E | T | H | L | G | T | A | D | W |
| E | M | T | C | A | L | O | N | N | B | D | M | B | M | A | S | F | P |
| F | W | H | E | E | S | I | A | M | P | L | B | R | B | N | H | M | E |
| S | T | W | G | W | A | N | W | Y | N | I | A | Y | L | H | E | B | T |
| A | D | Y | M | N | A | M | M | F | F | D | A | T | H | L | I | A | D |
| B | R | O | C | A | N | D | I | C | A | R | D | I | A | U | D | D | D |
| E | A | L | P | E | P | A | R | C | H | F | G | E | P | B | L | H | H |
| P | G | Y | D | D | S | I | O | C | L | E | D | N | B | S | U | L | D |

MAM
ARBENNIG
CARIADUS
CYNORTHWYOL
GOFALGAR
HAEL
DOETH
ESIAMPL
TEULUOL
FFRIND
PLANT
CARDIAU
DATHLIAD
CANDI
SUL
BLODAU
GWANWYN
FYDDLON
SIOCLED
ANRHEGION
COF
RHOSYN
RHYFEDDOL
CALON
GWYLIAU
PERTHYNAS
PARCH

# £4,194.68 wedi ei gasglu yn 'Dawns Gaeaf Sefydliad DPJ'

Mae tîm sefydliad DPJ am ddatgan eu diolch i bawb wnaeth ymuno â nhw yn nathliadau pen-blwydd y sefydliad. Cafodd £4,194.68 ei gasglu i'r elusen ar y noson. Gall yr arian hwn dalu am ddarparu cymorth drwy ein gwasanaeth *'Rhannwch Y Baich'* i 12 o bobl neu i dalu am gostau rhedeg yr elusen am wythnos a hanner. Gall hyn gynnwys rhedeg y linellau gymorth 24/7, darparu cwnsela, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn bersonol, ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar gyfartaledd mewn mis rydym yn helpu tua 15-20 o bobl drwy'r gwasanaeth 'Rhannwch'. Gallai'r rhodd hon wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Dywedodd Elen Gwen Williams, cynorthwydd marchnata ac ymgysylltu'r elusen - "Cawsom noson wych nôl ar ddechrau mis Rhagfyr yn y 'Vale Country Club', Rhuthun. Roedd digon o fwyta, sgwrsio, canu a dawnsio wrth i ni ddathlu fod elusen y DPJ, sy'n gweithio'n agos gyda ffermwyr Cymru i wella iechyd meddwl a lles, wedi ei sefydlu ers pum mlynedd.

Mae diolch enfawr i Owain Llyr - DJ Bustach am yr adloniant, i dîm 'Vale Country Club Weddings & Events' am y lleoliad, y bwyd blasus ar holl waith. Hoffem ddiolch o waelod calon i bawb wnaeth gyfrannu gwobrau tuag at y raffl – Fferm Stad y Rhug, Griffin Inn Llanbedr DC, The Kinmel & Kinspa, Siwgr a Sbeis, Crime Prevention Services, Gower Coast Meat, Gemwaith a Chrefftau gan Lowri Medi, Welsh Farm Supplies, Farringtons, Morgans Pori Gwych, D W Williams Agricultural Merchant, Teulu Llain Wen, Bob Fron Felen, Iwan Meirion Lloyd-Williams a TJ Parry-Jones & Merched. A diolch hefyd i Dafydd Parry a Sion Eilir am fod yn arwerthwyr i'r arwerthiant a Huw Rhys am y lluniau gwych or noson. Cawsom y cyfle i hysbysebu ein gwaith i'r gwesteion ac i ddiolch am yr holl gefnogaeth rydym wedi ei dderbyn dros y pum mlynedd diwethaf.'

Mae Sefydliad DPJ yn barod i helpu gydag unrhyw broblem sydd yn eich poeni. Os nad ydych chi'n teimlo fel chi eich hun, yn mynd drwy gyfnod anodd mewn perthynas, yn teimlo yn unig, wedi cael profedigaeth, yn galaru neu unrhyw beth arall sydd yn eich poeni. Gall fod yn fater bach neu fawr, gallwn eich helpu. Peidiwch â meddwl eich bod ar ben eich hun. Mae'r llinell gymorth yno i chi gael siarad, pob awr o'r dydd, pob diwrnod o'r flwyddyn.

Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun yn unig 07860 048799 / Ar Agor 24/7

Mae llinell ffon a gwasanaeth neges testun, 'Rhannwch Y Baich', yn gwbl gyfrinachol ac yn cael ei redeg gan ein gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i allu eich helpu. Maent hefyd â chyswllt o fewn amaethyddiaeth ac felly yn gallu cydnabod eich problemau. Mae cwnselydd yn cysylltu â'r rhai sy'n galw o fewn 48 awr ac yn cael eu gweld o fewn wythnos. Cynigir cwnsela ar y fferm, ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb mewn lleoliad oddi ar y fferm. Mae ein cwnselwyr yn siarad Cymraeg a Saesneg ac wedi eu lleoli ym mhob ran o Gymru.

Os ydych yn poeni am rywun yn eich cymuned, gallwch greu gobaith drwy weithredu. Estynnwch allan at y rhai sydd efallai yn mynd drwy gyfnod anodd, gall eich caredigrwydd wneud gwahaniaeth ym mywyd rhywun. Does dim cywilydd mewn gofyn am help.

**Elen Gwen Williams, Cynorthwy-ydd Marchnata ac Ymgysylltu**


# SIOP CLWYD

33 STRYD FAWR,DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau,Cardiau

Crynoddisgiau a
siopclwyd@yahoo.co.uk Chrefftau



CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg



LLYFRAU
BOBI OWEN
AMRYWIAETH MAWR O LYFRAU CYMRAEG A SAESNEG
y diweddar R.M.Owen ar gael yn Amgueddfa Dinbych, Lon Goch dydd Llun a dydd Iau 2—4
Gofynwn am gyfraniad i'r Amgueddfa

# £170,000 o arian y Loteri Genedlaethol i gefnogi cymunedau yn Sir Ddinbych i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan ganolbwyntio ar leihau gwastraff

Mae **Resource Denbighshire CIC** wedi derbyn y newyddion da y bydd £170,856 o arian y Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl a chymunedau yn y gogledd-ddwyrain i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Bydd yr arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cyllidwr mwyaf gweithgarwch cymunedol yn y DU, yn canolbwyntio ar leihau gwastraff drwy ddatblygu dealltwriaeth o ddulliau economi gylchol. Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu gan awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol yn Llangollen, Yr Wyddgrug a Rhuthun a bydd yn cysylltu sgiliau ar draws cymunedau Sir Ddinbych i ddarparu llyfrgell symudol sy'n cael ei rannu.

Bydd y prosiect 12 mis yn archwilio effaith cyflwyno prosiect gweithredu hinsawdd drwy'r **Bws Benthyg**, a fydd yn cario eitemau trydanol, offer llaw, ac eitemau gardd a chartref. Bydd y gymuned leol yn gallu rhoi eitemau nad oes eu hangen arnyn nhw bellach a bydd cwsmeriaid yn benthyg eitemau am ffi fach.

Y nod yw darparu ffordd ymarferol i gymunedau gymryd camau lleol ar leihau'r angen unigol am ddefnydd, lleihau gwastraff a newid arferion drwy adeiladu diwylliant o rannu ac atgyweirio – gan feithrin gweithredu hinsawdd rhyng-gysylltiedig yn y gymuned. Bydd y prosiect yn cael ei werthuso i ddeall effaith y gwasanaeth symudol ar fuddion cymunedol a lleihau gwastraff.

Bydd Crest Cooperative yn cefnogi'r prosiect i brynu a gwasanaethu offer ac eitemau cartref ail-law yn barod i'w benthyg gan y Bws Benthyg. Bydd beic cargo trydan hefyd yn teithio ar fwrdd y Bws, yn barod i gefnogi benthycwyr i gludo eitemau yn ôl i'w cartrefi. Bydd Drosi Bikes, sefydliad cymunedol yn Llangollen, yn darparu'r beic a'r gwasanaeth a byddant yn hyfforddi gwirfoddolwyr i'w ddefnyddio. Bydd y llyfrgell deithiol hefyd yn cefnogi digwyddiadau caffi trwsio lleol drwy ddarparu offer i gymunedau a darparu cyfleoedd hyfforddi i aelodau'r gymuned a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau trwsio.

Dywedodd **Janine Cusworth, Cyfarwyddwr Rheoli yn Resource Denbighshire CIC**: "Rydyn ni'n falch iawn o fod wedi derbyn y cyllid hanfodol hwn, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Bydd y grant yn ein galluogi ni a'n partneriaid i gymryd camau cadarnhaol dros yr hinsawdd drwy wasanaeth symudol unigryw a diddorol. Bydd y prosiect yn cysylltu cymunedau gwledig ar draws gogledd-ddwyrain Cymru drwy weithredoedd benthyca, rhannu ac atgyweirio - rhannu adnoddau a lleihau gwastraff."

Dywedodd **Nick Gardner, Pennaeth Gweithredu Hinsawdd yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol:** "Rydyn ni'n gwybod bod gan gymunedau rôl fawr i'w chwarae wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Dyna pam, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ein bod yn falch o fod yn cefnogi camau gweithredu sy'n cael eu harwain gan y gymuned i fynd i'r afael â gwastraff a defnydd. Bydd y prosiect hwn yn dod â phobl at ei gilydd i greu cymdeithas wastraff is, a fydd nid yn unig yn ein helpu i gyrraedd sero net, ond hefyd yn cefnogi cymunedau i lwyddo a ffynnu."

Daw'r ariannu cymunedol newydd hwn wrth i ymchwil diweddar gan y Loteri Genedlaethol* ganfod bod **pedwar o bob pump o oedolion yng ngogledd Cymru** (78%) yn credu mai cymunedau lleol sy'n gyfrifol am weithredu ar newid yn yr hinsawdd. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod hanner (50%) yn yr un ardal yn poeni am effaith yr hinsawdd ar eu cymuned leol.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae 21 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar wastraff a defnydd ac yn cael eu harwain gan y gymuned yn derbyn arian gan y Gronfa Gweithredu Hinsawdd ledled y DU. Cronfa £100 miliwn yw hon sy'n anelu at leihau ôl troed carbon cymunedau a chefnogi symudiadau a arweinir gan y gymuned, sy'n dangos yr hyn sy'n bosibl pan fydd pobl yn arwain y ffordd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ers 2016, rydym wedi dyfarnu £397 miliwn drwy fwy na 6,000 o grantiau sy'n cynnwys gweithredu amgylcheddol, gan gynnwys gweithredu ar wastraff a defnydd, ynni, trafnidiaeth, bwyd a'r amgylchedd naturiol. Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn bob wythnos ledled y DU ar gyfer achosion da.

I gael gwybod mwy ewch i www.cronfagymunedolylg.org.uk



CLWB PÊL-DROED DINBYCH

Roedd y Clwb yn hynod o falch o gael cynnal gêm ryngwladol yn Central Park ym mis Chwefror yn dilyn ymweliad gan yr FAW yn ddiweddar.

Ar ddydd Mawrth, Chwefror 8fed, fe wynebodd Tîm Merched Cymru dan 17 Dîm Merched Yr Alban dan 17 yn Central Park gyda'r Albanwyr yn curo o 4-1.

Roedd hi'n noson arbennig i Ddinbych wrth i'r holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf gael ei gydnabod a'i wobrwyo. Roedd clywed yr Anthemau Cenedlaethol yn cael eu canu cyn y gêm yn golygu gymaint i swyddogion y Clwb ac yn dangos mor bell mae'r Clwb wedi dod dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn dilyn llwyddiant y noson, gobaith yr FAW yw cynnal mwy o gemau rhyngwladol yn Central Park yn y dyfodol.

O ran y Tîm Cyntaf, maent yn dal yn rhan o'r frwydr i gipio teitl Cynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Orllewin gyda buddugoliaethau diweddar yn erbyn Dyffryn Nantlle (3-1) a Blaenau Amateurs (4-1).

Yn Nyffryn Nantlle, sgoriodd Stuart Jones ddwy gyda Jacob Barratt yn sgorio'r drydedd. Seren y gêm oedd yr arwyddiad diweddar ifanc, y gôl-geidwad Aaron Jones a safiodd gic o'r smotyn arbennig pan oedd hi'n 1-0. Fe newidiodd hyn natur y gêm yn llwyr ac hynny o blaid Dinbych.

Cafwyd amodau tywydd ofnadwy ym Mlaenau Ffestiniog yn erbyn Blaenau Amateurs gyda gwynt, glaw a thymereddau rhewllyd. Fe sgoriodd yr arwyddiad newydd Josh Davies ddwy gôl, un i Craig Rogers ac yna chic o'r smotyn gan Kristian Pierce yn sicrhau'r tri phwynt.

Maent ar hyn o bryd yn y drydydd safle yn y tabl, pum pwynt tu ôl i'r arweinwyr Mold Alex gydag un gêm wrth gefn i chwarae. Mae'r rheolwr Dewi Llion wedi cryfhau ei garfan yn ddiweddar gyda'i arwyddiadau diweddar o Craig Rogers o Airbus UK a Sean James o Landyrnog wrth i'r tîm edrych at orffen ar frig y tabl.

Dim ond un gêm mae'r Ail Dîm dan reolaeth Gethin Jones ac Ethan Jones wedi chwarae yn ddiweddar a honno'n golled drom o 9-0 yn erbyn tîm cryf Llanrwst.

Stori wahanol oedd hi i Dîm Merched Dinbych wrth iddyn nhw ennill eu gêm gyntaf o'r tymor yng Nghwpan Her Merched NWCFA. Mewn gêm gyffrous yn erbyn Bae Trearddur, daeth y goliau gan Cara Jones ac Elen Jones i sicrhau lle'r tîm yn y rownd nesaf. Yn y gynghrair, roedden nhw'n hynod o anlwcus i golli o 2-0 yn erbyn Pwllheli.



## Cwis Y Chwe Gwlad

1. Pa wlad sydd gyda uncorn fel ei anifail cenedlaethol?
2. Pa chwareuwr o Gymru sydd wedi cael y fwyaf o gapiau dros ei wlad?
3. Pa wlad sydd gyda'r poblogaeth mwyaf?
4. Pryd gychwynodd pencampwriaeth y Chwe Gwlad?
5. Pa wlad y byddwch yn teithio ar gondola du drwy'r ddinas llawn canals?
6. Pa 2 wlad sydd wedi ennill y bencampwriaeth 39 o weithiau?
7. Pa wlad sydd gyda'r poblogaeth lleiaf?
8. Pa wlad sydd gyda rhosyn fel blodyn cenedlaethol?
9. Pa wlad sy'n cael ei adnabod fel 'Emerald isle' oherwydd ei dirwedd?




CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Atgofion Capel Brwcws






































## Angerdd at adar









Hanes tudalen 5

## Clwb Pel-droed Dinbych



Tîm Merched Cymru dan 17 yn erbyn Tîm Merched Yr Alban dan 17 yn Central Park.




Dwy gôl i Josh Davies yn erbyn Blaenau Amateurs yng nghanol y gwynt a'r glaw.



Y cefnwr Sion Jones yn erbyn Dyffryn Nantlle.